Taflen 3

# Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Trawsgrifiadau Fideo

### Ellen Kerry Davis

**EKD:** Ac un noson, yng nghanol y gaeaf, mae'n rhaid bod fy nhad wedi arogli mwg, ac wedi mynd allan a gweld y synagog ar dân, gyda ni ynddi. Felly, llwyddodd i gael pob un ohonom allan, a fy mam eto yn feichiog a baban yn ei breichiau. Ac yno gallem weld grŵp o ieuenctid Natsïaidd gyda brics yn eu dwylo. Roeddent yn benderfynol o'n difa ni yn ogystal â'r synagog. Llosgodd y synagog i lawr ac yn y... beth bynnag oedd, gyda'r tanau'n cynnau a'r bobl yn gweiddi, fe lwyddodd rhai pobl nad oedden nhw'n Iddewon i fynd â ni oddi yno. Ac roedden ni yn ein dillad nos a heb esgidiau. Ac fe wnaethon nhw ein cuddio ni mewn seler iâ, sef bryn wedi ei llenwi â rhew, bryd hynny; nid oedd y fath bethau ag oergelloedd.

[...]

Roeddem ni- fe wnaeth y bobl hyn a oedd yn byw yn y tŷ mawr, ein rhoi yn y seler iâ pan oedd bron â bod hysteria torfol oherwydd nad oeddent yn gallu dod o hyd i ni ac roeddent am ein lladd. Ac roedden ni'n gwybod eu bod nhw eisiau ein lladd ni. Ond, dydw i ddim yn cofio unrhyw beth am weddill y dydd - y noson honno. A dweud y gwir, dim ond pedair blynedd yn ôl y gwelais hyn-y seler iâ ac fe wnes i gyfarfod â merch y bobl a'n hachubodd.

**Cyfwelydd:** A sut gawsoch chi - sut cawsoch chi eich achub?

**EKD:** Wel, fel y dywedais, ynghanol yr hysteria torfol yma, fe wnaethon nhw ein smyglo ni i ffwrdd o'r tân ac fe wnaeth y bobl yma nad oedd yn Iddewon ein cuddio ni yn y seler iâ tan drannoeth. Ac erbyn y diwrnod wedyn, wrth gwrs, roedd yr hysteria sydd—pan fydd grŵp o Ieuenctid Hitler yn dod at ei gilydd, maen nhw'n herio ei gilydd, fel rydyn ni'n dweud nawr, a dim ond un dorf hysterig ydyw. A'r cyfan roedden nhw eisiau ei wneud oedd ein lladd ni.

### Irene Kirstein Watts

**IKW:** Rwy’n cofio parêd. Rwy'n cofio gwthio fy hun i flaen y dorf. Rwy'n cofio saliwtio fel hyn [yn rhoi saliwt i'r Natsïaid], fel pawb arall. Rwy'n cofio meddwl, ‘Pam na allaf i fod yn yr orymdaith hon, a chael gwisgo fel y merched hynny?’

Roedd e'r peth mwyaf dramatig a theatraidd y gallwch chi ei ddychmygu; y baneri coch a gwyn a'r swasticas, a'r cymeradwyo, a'r tyrfaoedd. Roeddwn i'n saith oed, neu efallai hyd yn oed yn iau. Ac roeddwn i'n gwybod nad oedd hyn yn rhywbeth roeddwn i fod i'w wneud, yn union fel yr oeddwn yn gwybod nad oeddwn i fod i fynd drwy'r parc, ond rwy'n cofio eistedd ar fainc parc ac edrych ar fy esgidiau - esgidiau lasys- a'u siglo. A dwi'n siŵr i mi eistedd ar fainc oedd yn dweud, 'Juden verboten'. Mae'n debyg fy mod yn mynegi fy unigoliaeth.

Roeddwn i'n gwybod bod Hitler yn ddrwg; roeddwn i wedi dysgu cymaint â hynny o glywed sgyrsiau, ond doeddwn i ddim yn gwybod mewn gwirionedd pam ei fod yn ddrwg. Ac roedd rhywbeth hollol wych i ferch fach, cerddoriaeth a lliw a thorfeydd. Ac fe wnes i hynny.



© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi’i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC